

Rheoliadau Cyffredinol i'r Holl Fyfywrwyr

Rheoliad 13: 2016 Fersiwn 01

Wedi dod i rym 1 Tachwedd 2016



PRIFYSGOL
BANGOR
UNIVERSITY

Rhagarweiniad

1. Mae'r myfywrwyr yn cytuno i gadw at y rheoliadau cyffredinol hyn pan fyddant yn ymrestru. Drwy gytuno i gadw at y rheoliadau hyn, mae'r myfywrwyr hefyd yn cytuno i gadw at holl reolau a rheoliadau eraill y brifysgol gan gynnwys :
 - Rheoliadau academaidd y brifysgol a'u cwrs.
 - Rheolau'r ysgol lle maent yn astudio.
 - Rheoliadau a rheolau pob adran yn y brifysgol, e.e. y llyfrgell.
 - Rheolau'r neuaddau preswyl.

Disgyblaeth Myfywrwyr

2. Mae'r brifysgol yn disgwyl i fyfywrwyr gwrdd â'r safonau ymddygiad a ddiffinnir gan ei rheoliadau. Bydd y brifysgol yn cymryd camau disgyblu os bydd unrhyw achos o dorri'r rheoliadau.
3. Bydd y brifysgol yn rhoi gwybod i'r heddlu am unrhyw honiad o weithgarwch troseddol neu os yw'n amau bod gweithgarwch o'r fath wedi digwydd.
4. Mae swyddogion disgyblu'n ymdrin â mân droseddau disgyblu. Cyfeirir achosion mwy difrifol at y Bwrdd Disgyblu. Mae'r cosbau'n cynnwys cerydd, dirwy, gwahardd o'r brifysgol dros dro neu derfynu ymrestrriad/cofrestrriad y myfyriwr.

Rheolau Cyffredinol

5. Rhaid i bob myfyriwr, pa un a ydynt ar dir y brifysgol neu beidio:
 - ymgadw rhag ymddygiad sydd yn anghyfreithlon mewn unrhyw ffordd neu sy'n gyfystyr ag anonestrwydd, niwsans neu aflonyddu ar berson neu bersonau eraill (yn cynnwys myfyriwr neu fyfywrwyr eraill yn y brifysgol neu unrhyw sefydliad arall, neu aelodau'r cyhoedd.
 - ymatal rhag ysgogi gweithgarwch troseddol neu dorri rheoliadau'r brifysgol.
 - Ymddwyn mewn modd gweddus.
 - Ufuddhau i'r holl awdurdodau cyfreithlon.
 - Ymddwyn yn briodol yn gyhoeddus ac ym mhob math o gyfathrebu, gan gynnwys cyfathrebu electronig a'r cyfryngau cymdeithasol.
 - Peidio â dwyn anfri yn y brifysgol (ym marn y brifysgol) neu ymrwymo i unrhyw atebolrwydd ar ran y brifysgol.
6. Rhaid i bob myfyriwr gario eu cerdyn adnabod prifysgol gyda hwy bob amser pan fyddant ar dir y brifysgol. Rhaid i fyfywrwyr roi eu henw a chyflwyno eu cerdyn adnabod pan ofynnir iddynt wneud hynny gan aelod o'r staff academaidd, aelod o'r staff gweinyddol, staff diogelwch, neu unrhyw un arall mewn awdurdod. Rhaid i fyfywrwyr beidio â chaniatáu i unrhyw un arall ddefnyddio eu cerdyn adnabod prifysgol. Rhaid i fyfywrwyr beidio â llofnodi neu gadarnhau presenoldeb ar ran unrhyw un arall neu ofyn i unrhyw un arall gadarnhau presenoldeb ar eu rhan.
7. Bydd presenoldeb myfywrwyr yn cael ei fonotro fel a ddisgrifir yn Natganiad Polisi y Brifysgol ar Fonitro Presenoldeb ac Ymroddiad Myfywrwyr (<http://www.bangor.ac.uk/ar/main/student-attendance.php.cy>)

Nodyn: O dan amgylchiadau eithriadol, a gyda chytundeb Cadeirydd Pwyllgor Rheoliadau ac Achosion Arbennig y Senedd, gall cyfrifoldebau a neilltuir i Ysgolion, Penaethiaid Ysgol, Swyddogion Ysgol neu Bwyllgorau Ysgol yn y Rheoliadau hyn gael eu mabwysiadu gan y Coleg, Pennaeth y Coleg, Swyddogion y Coleg neu Bwyllgorau'r Coleg yn y drefn honno, fel y bo'n briodol.

8. Rhoddir cyfeiriad ebost prifysgol i fyfyrwyr a disgwylir iddynt edrych ar eu cyfrif ebost prifysgol yn rheolaidd.
9. Mae'n ofynnol i fyfyrwyr sy'n dilyn cyrsiau lle ceir lleoliad gyda sefydliad allanol gydymffurfio â rheolau a rheoliadau darparwr y lleoliad, ac â chodau ymddygiad unrhyw gorff proffesiynol perthnasol.
10. Mae'n rhaid i fyfyrwyr beidio ag ymyrryd â'r canlynol:
 - Swyddogaethau academaidd neu weinyddol y brifysgol.
Mae'r swyddogaethau'n cynnwys arholiadau, seremonïau a chyfarfodydd, ac unrhyw hysbysiad a osodir ar hysbysfwrdd swyddogol ar ran y brifysgol.
 - Pobl sy'n gweithio neu'n astudio yn y brifysgol.
Mae'r rhain yn cynnwys swyddogion, aelodau staff, gweithwyr a myfyrwyr.
 - Eiddo'r brifysgol
Mae hyn yn cynnwys tynnu, difrodi, camddefnyddio neu ddifwyno eiddo.
11. Rhaid i fyfyrwyr ufuddhau i gyfarwyddiadau gan staff y brifysgol i symud o adeiladau ac ardaloedd sydd dan reolaeth y brifysgol.
12. Mae ysmegu wedi'i wahardd o fewn holl adeiladau'r brifysgol ac mewn cerbydau sydd wedi'u llogi a'u prydlesu ganddi, neu'n eiddo iddi. Ar dir y Brifysgol, mae ysmegu wedi ei wahardd hefyd o fewn pum medr i unrhyw adeilad, ac eithrio ym manau ysmegu dynodedig y brifysgol. Bernir bod anufuddhau i Bolisi Dim Ysmegu'r brifysgol yn dramgwydd disgyblu. Gall ysmegu mewn manau a ystyrir yn rhai sensitif neu risg uchel, megis labordai, storffeydd neu ger deunyddiau fflamadwy, gael ei ystyried yn weithred o gamymddwyn difrifol a gall arwain at achos disgyblu'n syth.
13. Mae adroddiadau Arholwyr Allanol yn gyfrinachol i'r Brifysgol ac ni ddylid rhyddhau y wybodaeth sydd ynddynt tu allan i'r Brifysgol. Mae rhyddhau gwybodaeth gyfrinachol yn dramgwydd disgyblu.
14. Rhaid i'r holl fyfyrwyr sy'n cael euogfarn berthnasol (fel y diffinnir ef ym mharagraff 68) tra byddant wedi ymrestru ddatgan hyn yn ysgrifenedig i'r Cofrestru Academaidd o fewn 14 diwrnod. Rhaid i fyfyrwyr hysbysu unrhyw aelod(au) staff a ddynodwyd ar gyfer eu cwrs penodol.

Derbyn

15. Pennir y meini prawf derbyn gan reoliadau a chodau ymarfer y brifysgol, a chan ofynion cyrsiau penodol.
16. Fel rheol dylid gwneud cais i gael derbyniad i gyrsiau gradd israddedig, graddau sylfaen a Diplômâu Cenedlaethol Uwch trwy UCAS. Rhaid gwneud cais am dderbyniad i bob cwrs arall trwy Swyddfa Derbyniadau'r Brifysgol neu drwy sefydliadau partner.
17. Awdurdodir cadeirydd Pwyllgor Rheoliadau ac Achosion Arbennig y Senedd i gymryd camau gweithredu mewn unrhyw achosion arbennig a gyfeirir ato/ati gan Swyddfa Derbyniadau'r Brifysgol. Mewn achosion eithriadol, gall y pwyllgor gyfeirio achosion i'w hystyried.
18. Gellir diddymu ceisiadau os yw'r cais yn cynnwys gwybodaeth anghywir neu os nad yw'r ymgeisydd wedi datgan euogfarnau perthnasol (fel y diffinnir hwy ym mharagraff 68). Gellir diddymu cynigion i astudio yn y brifysgol hefyd os oedd y cais yn cynnwys gwybodaeth anghywir neu os hysbysir y brifysgol o unrhyw wybodaeth berthnasol arall.

Ymrestru a Chofrestru

19. Ymrestru yw enw'r broses ffurfiol a ddilynir gan bob myfyriwr i ymrestru ar gyfer un o ddyfarniadau'r Brifysgol. Mae'n rhaid i fyfyrwyr sydd wedi ymrestru gadw at Reolau a Rheoliadau'r Brifysgol drwy gydol cyfnod yr ymrestru. Ar ddechrau eu rhaglen astudio, mae myfyrwyr sydd wedi ymrestru yn cofrestru ar gyfer y flwyddyn academaidd gyfredol. Rhaid i fyfyrwyr ail-gofrestru ar gyfer pob blwyddyn academaidd o'u hastudiaethau.
20. Mae'n ofynnol i fyfyrwyr ymrestru a chofrestru ar ddyddiadau a nodir gan y brifysgol neu gan sefydliad partner. Rhaid i fyfyrwyr:
 - Cytunaf i gydymffurfio â rheoliadau'r brifysgol (Gweler Paragraff 1).
 - Cadarnhau eu gallu i gyflawni eu hymrwymadau ariannol i'r brifysgol.

- Cadarnhau, ar gais y brifysgol eu bod yn iach i astudio ac/neu eu bod yn cwrdd ag unrhyw feini prawf meddygol a nodir ar gyfer y cwrs a ddewiswyd ganddynt.
21. Os na myfyrwyr yn cofrestru ar y dyddiad(au) a benodir codir tâl cofrestriad hwyr arnynt fel y'i diffinnir gan y Brifysgol bob blwyddyn. Rhaid i fyfyrwr sydd ddim yn gallu cofrestru anfon eglurhad ysgrifenedig at y Cofrestrydd Academaidd. Gellir caniatáu i fyfyrwyr sy'n cyflwyno tystiolaeth ysgrifenedig am amgylchiadau lliniarol gofrestru ar ddyddiadau gwahanol.
 22. Ni chaniateir i fyfyrwyr gofrestru ar ôl pedair wythnos o'r diwrnod cyntaf o semester heb ganiatâd pennaeth yr ysgol sy'n eu derbyn a chymeradwyaeth gan y Dirprwy Is-ganghellor (Addysgu a Dysgu).
 23. Rhaid i gwrs astudio pob myfyrwr (h.y. dewisiadau modiwl) gael ei gymeradwyo gan yr ysgol sy'n ei dderbyn. Gall yr Ysgol sy'n derbyn gymeradwyo newidiadau i fodiwlau o fewn tair wythnos ar ôl dechrau Semester 1 ac o fewn pythefnos ar ôl dechrau Semester 2. Rhaid i'r Cofrestrydd Academaidd neu'r sawl a enwebir ganddo/ganddi gymeradwyo unrhyw newidiadau eraill.
 24. Ni chaniateir fel rheol i fyfyrwr sydd mewn dyled gofrestru. Awdurdodir Pennaeth Derbyniadau i benderfynu a ganiateir cofrestru dros dro am gyfnod penodol.

Terfynu a Gohirio Astudiaethau

25. Gellir terfynu ymrestriad/cofrestriad myfyrwr am unrhyw un o'r rhesymau canlynol:
 - Methiant i ddilyn y rhaglen academaidd o ddifrif (gan gynnwys presenoldeb a chwblhau gwaith). Ystyrir achosion o'r fath o dan y Drefn Terfynu Astudiaethau (Trefn 06).
 - Torri rheoliadau'r brifysgol. Caiff achosion felly eu hystyried o dan yr Ordinhad Disgyblu Myfyrwyr, wedi ei ategu lle bo'n briodol gan drefniadau penodol gwahanol adrannau (e.e. neuaddau preswyl).
 - Ymarfer academaidd annheg. Caiff achosion o'r fath eu hystyried o dan y Drefn Ymarfer Annheg (Trefn 05).
 - Ffioedd, dirwyon a thaliadau eraill sydd heb eu talu. Caiff achosion o'r fath eu hystyried yn unol â threfniadau'r brifysgol ar gyfer delio â dyledwyr.
 - Methu â chwrdd â'r safonau academaidd a ddisgwyllir mewn gwaith wedi ei arholi /ei asesu. Ystyrir achosion o'r fath o dan y rheoliadau academaidd gan gynnwys y Cod Ymarfer Asesu Myfyrwyr ar Gyrsiau Israddedig ac Ôl-radd Hyfforddedig (Cod 02).
 - Os ydy presenoldeb ddim yn cyd-fynd a chanllawiau Asiantaeth Fisa a Mewnfudo'r DU. Gweler Polisi y Brifysgol ar Fonitro Presenoldeb ac Ymroddiad Myfyrwyr sydd ar gael yn <http://www.bangor.ac.uk/ar/main/student-attendance.php.cy>.
 - Methu â chydymffurfio ag unrhyw weithdrefnau gweinyddol gorfodol heb reswm da ac/neu hysbysu ysgrifenedig o fewn cyfnod rhesymol.
26. Gellir terfynu astudiaethau myfyrwyr drwy gyfrwng trefniadau penodol a gymeradwywyd fel rhan o'r broses gymeradwyo/ddilysu ar gyfer eu cwrs, gan gynnwys Trefniadau Addasrwydd i Ymarfer ac amodau a osodwyd gan gyrff proffesiynol neu noddwyr.
27. Bydd y brifysgol yn derbyn tystiolaeth a ddarperir gan sefydliad lletyol os oes pryderon ynglŷn ag ymddygiad myfyrwr ar leoliad.
28. Mae hawl gan Bwyllgor Rheoliadau ac Achosion Arbennig y Senedd i ohirio neu derfynu astudiaethau unrhyw fyfyrwr ar sail iechyd.
29. Rhaid i fyfyrwr sy'n dymuno gohirio neu derfynu eu hastudiaethau gysylltu â'r Ganolfan Gwasanaethau Myfyrwyr fel y diffinnir hynny dan Drefn 07 (Cymeradwyo Gohirio Astudiaethau). Rhaid iddynt hefyd hysbysu'r Ganolfan Gwasanaethau Myfyrwyr pan fyddant yn barod i ailafael yn eu hastudiaethau.

Rheolau Academaidd

30. Rhaid hysbysu'r brifysgol os nad yw myfyriwr yn gallu dilyn cwrs neu fynychu arholiadau oherwydd salwch neu anaf. Fel rheol dylid darparu tystysgrifau meddygol.
31. Mae'n rhaid i bob myfyriwr sy'n sefyll arholiadau gadw at y rheolau sy'n ymwneud ag arholiadau'r Brifysgol. Rhaid i bob myfyriwr gyflwyno eu cerdyn adnabod prifysgol ym mhob arholiad pan ofynnir iddynt wneud hynny gan aelod o staff y brifysgol. Os na all staff gyflwyno eu cerdyn adnabod prifysgol gellir gofyn iddynt adael yr arholiad.
32. Efallai bydd yn ofynnol i fyfyrwyr gyflwyno copiâu electronig o asesiadau. Gall yr asesiadau hyn gael eu rhoi trwy gronfa ddata a ddefnyddir i ganfod llên-ladrad. Disgrifir llên-ladrad yng Nghod Ymarfer y Brifysgol ar Lên-ladrad (Cod 13).

Rheolau Preswyllo

33. Yn ystod y tymor rhaid i fyfyrwyr llawn amser:
 - Byw o fewn pellter rhesymol i'r brifysgol neu'r ganolfan addysgu ddynodedig.
 - Cofnodi cyfeiriad yn ystod y tymor gyda'r Brifysgol.
 - Hysbysu'r brifysgol o unrhyw newid yn eu cyfeiriad yn ystod y tymor neu eu cyfeiriad cartref.
34. Dylid gofyn am ganiatâd pennaeth yr ysgol (neu'r sawl a enwebir ganddo/ganddi) i fod yn absennol o ddarlithoedd neu ddsbarthiadau.
35. Rhaid i fyfyrwyr ôl-radd amser llawn fod yn y brifysgol, neu mewn lleoliad arall a gytunir trwy gydol y cyfnod cofrestru cyfan. Rhaid i drefnydd y cwrs neu'r goruchwyliwr ymchwil gymeradwyo unrhyw gyfnodau i ffwrdd o'r brifysgol, ar gyfer gwyliau neu astudio.

Talu Ffioedd a Thaliadau Eraill

36. Rhaid i bob myfyriwr dalu ffioedd a dirwyon a bennir gan y brifysgol. Fel rheol, rhaid talu ffioedd cyn y cyfnod astudio ond gellir trefnu talu mewn rhandaliadau.
37. Os na thelir ffioedd neu ddirwyon, gall y brifysgol:
 - Gwrthod caniatáu i fyfyrwr gofrestru.
 - Terfynnu ynrestiad y myfyriwr
 - Cymryd camau disgyblu.
 - Mynd â'r achos i'r llysoedd sifil.
 - Atal gradd, diploma neu gymhwyster arall y myfyriwr.

Iechyd a Diogelwch

38. Rhaid i fyfyrwyr gadw at y rheolau ym mholisiâu Iechyd a Diogelwch y brifysgol ac yn y llawlyfrau myfyriwr. Mae'n rhaid iddynt wneud y canlynol:
 - Mynd i ddarlith ddiogelwch yn eu hysgol/coleg pan fyddant yn dechrau yn y brifysgol.
 - Peidio ag ymyrryd ag offer diffodd tân neu â drysau diogelwch rhag tân mewn coridorau a phen grisiau.
 - Cadw at yr holl reolau a gyhoeddir gan eu hysgol, gan gynnwys rheolau yn ymwneud â gweithio mewn labordai, manau clinigol ac ar ymweliadau â safleoedd.
39. Fel arfer mae'n ofynnol i fyfyrwyr gofrestru â meddyg teulu ym Mangor, neu ardal gyfagos, pan fyddant yn dechrau eu hastudiaethau.
40. Rhaid i fyfyrwyr sy'n astudio i ffwrdd o'r brifysgol gadw at drefniadau iechyd a diogelwch y sefydliad neu ddarparwr y lleoliad.
41. Gall unrhyw weithredoedd sy'n peryglu iechyd a diogelwch eraill arwain at gamau disgyblu gan y brifysgol ac at erlyn o dan Ddeddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith, 1974.

Ceir

42. Dim ond ceir â thrwydded barcio a gaiff barcio ar dir y Brifysgol. Fel rheol, bydd myfyrwyr sy'n byw mewn neuadd yn cael trwydded barcio ar gyfer y neuadd benodol honno. Caiff myfyrwyr sy'n byw y tu allan i Fangor wneud cais am drwydded barcio ac fe roddir trwydded iddynt ar yr amod bod un ar gael.
43. Wrth yrru ar safleoedd y Brifysgol, mae'n rhaid i fyfyrwyr gadw at gyfyngiad cyflymder y safle dan sylw. Os na fyddant yn gwneud hynny gallant golli eu hawl i barcio.
44. Ni chaiff myfyrwyr ddefnyddio eu car eu hun i gludo cleifion, clientiaid neu blant ysgol yn ystod lleoliadau gwaith.

Defnyddio Adeiladau a Thir y Brifysgol

45. Gellir cynnal cyfarfodydd ac achlysuron cymdeithasol yn adeiladau'r brifysgol neu ar dir y brifysgol os rhoddwyd caniatâd gan yr awdurdod priodol.
46. Caniateir yfed diodydd alcoholig mewn ardaloedd o'r Brifysgol heb drwydded dim ond os rhoddwyd caniatâd gan yr awdurdod priodol. Os yfir diodydd alcoholig mewn mannau trwyddedig yn y brifysgol rhaid i hynny ddiwydd yn unol â thelerau'r drwydded.
47. Ni chaniateir i fyfyrwyr dod ag anifeiliaid domestig, ac eithrio cŵn cymorth, i adeiladau'r Brifysgol. Ar dir y brifysgol, tu allan i adeiladu'r brifysgol, mae'n rhaid cadw anifeiliaid domestig ar dennyn ac mae'n rhaid i'r sawl sy'n gyfrifol amdanynt aros gyda nhw bob amser.

Rheoliadau Defnyddio Gwybodaeth a Gwasanaethau (Rheoliadau Defnydd Derbyniol)

48. Rhaid i fyfyrwyr sy'n defnyddio gwasanaethau cyfrifiadura'r brifysgol gadw at y Rheoliadau Defnydd Derbyniol. Mae copi o'r rheoliadau ar gael ar wefan gwasanaethau TG.
49. Darperir gwasanaethau cyfrifiadura'r Brifysgol i ddibenion derbyniol, awdurdodedig yn unig. Mae'r rheoliadau'n nodi cyfrifoldebau defnyddwyr unigol. Mae'r Rheoliadau Defnydd Derbyniol yn cynnwys adrannau ar ddefnydd derbyniol, gwaharddiadau, amodau mynediad a phreifatrwydd data defnyddwyr. Mae'r Rheoliadau Defnydd Derbyniol yn annog pobl i ddefnyddio'r cyfleusterau'n gyfrifol, yn cynnig cymaint o adnoddau TG â phosib ac yn lleihau'r posibilrwydd o gamddefnyddio'r cyfleusterau y tu fewn neu'r tu allan i'r brifysgol.
50. Ni chaiff myfyrwyr ddefnyddio cyfleusterau cyfrifiadura'r Brifysgol i anfon neu edrych ar unrhyw ddeunydd anllad, anwedus neu anghyfreithlon.
51. Gallai methiant i gydymffurfio â'r rheoliadau hyn arwain at weithredu o dan drefniadau disgyblu'r brifysgol, tynnu breintiau'n ôl neu atal mynediad at adnoddau TG.

Hawliau Eiddo Deallusol Myfyrwyr

52. Yr egwyddor gyffredinol yw mai'r myfyriwr fydd yn berchen ar Eiddo Deallusol a grëir gan y myfyriwr yn ystod eu hastudiaethau. Mae yna amgylchiadau pan mai'r Brifysgol fydd yn berchen ar Eiddo Deallusol yng ngwaith myfyriwr, ac fe allai'r Brifysgol fynny fod myfyriwr yn trosglwyddo eu Eiddo Deallusol i'r Brifysgol (ney trydydd parti). Mae yna fwy o wybodaeth ym Mholisi Eiddo Deallusol y Brifysgol.
53. Dylai myfyriwr sy'n gwneud dyfais neu ddarganfyddiad, neu'n cyfrannu ato, dynnu sylw tiwtor neu oruchwyliwr at hynny'n syth – a fe drafodir hyn gyda'r Swyddfa Menter ac Ymchwil. Dylai'r myfyriwr gadw unrhyw ddarganfyddiad neu ddyfais yn gyfrinachol hyd nes y bu trafodaeth gyda'r Brifysgol.

Rheolau a Rheoliadau'r Llyfrgell

54. Mae hawl gan bob myfyriwr sydd wedi ymrestru i ddefnyddio'r Llyfrgell. Rhaid i fyfyrwyr gadw eu cerdyn llyfrgell yn ddiogel bob amser. Mae'n rhaid i fyfyrwyr beidio â benthycu eu cerdyn llyfrgell i neb arall.
55. Rhaid i fyfyrwyr gadw at reolau, rheoliadau a hawliau benthycu; polisiau ar ddefnydd derbyniol a chanllawiau eraill y llyfrgell. Ceir manylion am y rhain ar wefan y llyfrgell ac anogir yr holl fyfyrwyr i'w darllen.
56. Nid yw diffyg gwybodaeth neu ddealltwriaeth o unrhyw reol neu reoliad yn esgusodi defnyddiwr rhag cosbau oherwydd ei fethiant i gydymffurfio.

Gwarchod Data

57. Diben deddfwriaeth gwarchod data yw:

- Sicrhau nad yw data personol yn cael eu prosesu heb yn wybod i wrthrych y data a heb eu caniatâd, ac eithrio mewn rhai achosion.
- Sicrhau bod data personol a brosesir yn fanwl gywir.
- Gorfodi cyfres o safonau ar gyfer prosesu data personol.

Deddf Gwarchod Data 1998 yw'r deddfwriaeth gwarchod data gyfredol. Mae Deddf 1998 yn cynnwys data a ddelir mewn ffeiliau papur yn ogystal â ffeiliau cyfrifiadurol.

58. Mae gan fyfyrwyr yr hawl i wirio dilysrwydd y data a gedwir arnynt gan y brifysgol. Trwy wneud cais ysgrifenedig, a thalu'r tâl angenrheidiol, gall myfyrwyr gael copi o'r holl ddata a gedwir amdanynt. Gellir cael y ffurflen briodol ar gyfer gwneud cais am ddata gan y Cofrestrydd Cynorthwyol sy'n gyfrifol am sicrhau cydymffurfiad â'r Ddeddf.

Rhyddid Gwybodaeth

59. Mae Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 yn rhoi i unigolion yr hawl i wneud cais ysgrifenedig (gan gynnwys trwy ebost neu ffacs) am wybodaeth nad yw'n bersonol oddi wrth awdurdodau cyhoeddus gan gynnwys y brifysgol.
60. Yn amodol ar rai eithriadau, os yw rhywun yn gwneud cais i'r brifysgol am wybodaeth, mae'n rhaid rhoi gwybod iddo/iddi o fewn 20 diwrnod p'run a ydyw'r wybodaeth honno gan y Brifysgol ai peidio ac, os ydyw, mae'n rhaid darparu'r wybodaeth honno (yn amodol ar rai eithriadau).
61. Mae'r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth yn ategu Deddf Gwarchod Data 1998.
62. Gellir cael manylion pellach ynghylch sut i wneud cais, neu am bolisi'r brifysgol ar ryddid gwybodaeth, gan y Cofrestrydd Cynorthwyol sy'n gyfrifol am sicrhau cydymffurfiad â'r Ddeddf.

Hawlfraint

63. Mae hawlfraint yn berthnasol i'r rhan fwyaf o weithgareddau academiaidd yn y brifysgol gan gynnwys pecynnau cwrs, dangos fideos, gwrando ar dapiau sain, papurau arholiad, taflenni tiwtorial etc. Mae Deddf Hawlfraint, Dylunio a Phatentau 1988 ynghyd â nifer o gynlluniau trwyddedu yn amlinellu fframwaith y mae'n rhaid i'r Brifysgol gadw ato.
64. Mae llungopïo gwaith â hawlfraint arno heb ganiatâd yn dor hawlfraint a gall arwain at gamau cyfreithiol neu achos troseddol a allai arwain at ddirwyon sylweddol (ac/neu garchar). Mae'r Asiantaethau Trwyddedu'n bodoli er mwyn erlyn mewn achosion o dorri hawlfraint a byddech chi'n bersonol yn agored i gael eich erlyn yn ogystal â'r brifysgol.
65. Mae manylion am yr hyn y gellir ei gopïo, heb dorri hawlfraint, ar gael o wefan y brifysgol, (Swyddfa'r Cofrestrydd, Cydymffurfiad Cyfreithiol, Risg ac Argyfwng).

Diffiniadau

66. **Myfyriwr(wyr):** unrhyw unigolyn sy'n dilyn rhaglen astudio a gyflwynir gan y brifysgol neu ar ran y brifysgol. Mae rhaglenni astudio'n cynnwys cyrsiau sy'n arwain at gymwysterau a rhai nad ydynt yn arwain at gymwysterau.
67. **Y brifysgol:** Prifysgol Bangor, Rhif Elusen 1141565, Ffordd y Coleg, Bangor, Gwynedd LL57 2DG.
68. **Euogfarnau troseddol perthnasol:** dim ond yr euogfarnau hynny a geir am droseddau yn erbyn yr unigolyn, o natur dreisgar neu rywiol, ac euogfarnau am droseddau sy'n ymwneud â chyflenwi cyffuriau neu sylweddau rheoledig yn anghyfreithlon, lle bo'r euogfarn yn ymwneud â gwerthu neu fasnachu cyffuriau. Ni fernir fod euogfarnau sydd wedi'u treulio (yn ôl y diffiniad a geir yn Neddf Ailsefydlu Troseddwyr 1974) yn berthnasol, ac nid oes raid ichi eu datgelu. Yn achos cyrsiau mewn addysgu, iechyd a gwaith cymdeithasol, neu gyrsiau sy'n cynnwys gwaith gyda phlant neu oedolion sy'n agored i niwed, mae unrhyw euogfarnau troseddol, rhybuddion (yn cynnwys rhybuddion llafar), ceryddon, rhybuddion terfynol a gorchmynion rhwymo wedi'u heithrio o Ddeddf Ailsefydlu Troseddwyr 1974.